# CANLLAW CWRICWLWM Y DYNIAETHAU

TREES FOR CITIES

| HYDREF | GWANWYN | HAF |
| --- | --- | --- |
| Dysgwch am y tymhorau a llysiau tymhorol a beth sy'n tyfu dros yr hydref a'r gaeaf yn y DU.<br>Crëwch rysáit cawl y gaeaf o lysiau'r gaeaf rydych chi wedi'u cynaeafu. | Digwyddiadau Hanesyddol<br>Rhowch berfformiad yn yr awyr agored. Actiwch olygfa o ddigwyddiad hanesyddol rydych chi'n ei astudio yn eich Gardd Llawn Bwyd. | Digwyddiadau Hanesyddol<br>Ar gyfer beth mae gwenith yn cael ei ddefnyddio? Allwch chi dyfu rhywfaint? Edrychwch ar esblygiad tyfu gwenith a sut y newidiodd arferion ffermio yn aruthrol. |
| Cymeriadau Hanesyddol<br>Ymchwiliwch i waith Wangari Maathai a chyflwynwch pam roedd hi'n bwysig i goed a byd natur. | Bwyd ag arwyddocâd crefyddol, recordio seinwedd, gwneud offerynnau hadau gan ddefnyddio hadau o wahanol faint. | Digwyddiadau Hanesyddol<br>Antarctica/Archwilio<br>Cymharwch a chyferbynnwch anifeiliaid yn Antarctica â'r anifeiliaid yn eich gardd chi. A fydden nhw'n gallu goroesi yng nghynefinoedd ei gilydd? |
| Sgiliau Daearyddol<br>Defnyddiwch gwmpawd a thermomedrau i gasglu data o'r Ardd Llawn Bwyd. Beth yw'r gwahaniaeth yn y tymheredd y tu mewn a'r tu allan i'r tŷ gwydr? | Oes y Cerrig<br>Casglwch gerrig/brics a chreu eich set eich hun o offer oes y cerrig gyda'u defnydd eu hunain. Gwnewch wely uchel o Oes y Cerrig gan arddangos y gwrthrychau rydych chi wedi dod o hyd iddyn nhw gyda labeli wedi'u lamineiddio. | Yr Hen Aifft<br>Gan ddefnyddio ffon a mwd, ysgrifennwch hieroglyffau yn eich Gardd Llawn Bwyd. Roedd yr Eifftiaid yn tyfu cwmin, dil, coriander, finegr, letys a mwstard, sinamon a rhosmari. Roedd y rhain ymysg rhoddion Ramses III i'r temlau. Ydych chi'n gallu tyfu unrhyw un o'r rhain yn eich Gardd Llawn Bwyd? Pa rai ac ar ba adeg o'r flwyddyn? |
| Gwareiddiadau'r Hen Fyd<br>Swmeriaid oedd yn gyfrifol am y ryseitiau cyntaf wedi'u hysgrifennu. Ymchwiliwch i'r cysylltiadau eraill â bwyd y mae'r gwareiddiad rydych chi wedi'i ddewis yn gyfrifol amdanynt. | Sgiliau Daearyddol a Gwaith Maes<br>Edrychwch ar fap o'ch ardal leol gan ddefnyddio delweddau lloeren Google. Nodwch ardaloedd lle gallech chi greu Gardd Llawn Bwyd – naill ai mewn lle cyhoeddus neu breifat. Ystyriwch pa nodweddion fyddai'n sicrhau'r llwyddiant gorau. | Gwybodaeth am Le<br>Gan ddefnyddio map o Ewrop, a allwch chi ganfod pa ffrwythau a llysiau allweddol sy'n cael eu tyfu yno? Am beth maen nhw'n enwog? E.e. Gwlad Groeg – olewydd, yr Eidal – grawnwin.<br>Gwnewch fap bwyd yn dangos ble mae'r bwydydd hyn yn cael eu tyfu a pham. |
| Yr Eingl-Sacsoniaid neu'r Llychlynwyr<br>Ymchwiliwch a chynllluniwch lain tyfu llysiau sy'n ymgorffori'r mathau o gynnyrch a oedd yn cael eu tyfu yn ystod oes yr Eingl-Sacsoniaid neu'r Llychlynwyr. | Astudiaeth o Benin/Maia<br>Gan ddefnyddio adnoddau naturiol yn eich Gardd Llawn Bwyd (hadau, chwyn, toriadau gwair, ffyn) a llefydd naturiol, gwnewch fwgwd Benin neu strwythur teml Maiaidd. | Cymunedau<br>Trafodwch fanteision gerddi a phrosiectau cymunedol. Pa enghreifftiau ydych chi'n ymwybodol ohonynt yn eich ardal chi? Pe bai eich Gardd Llawn Bwyd yn ardd gymunedol, pa wahanol bobl fyddai'n gallu eu helpu/cefnogi? Sut/pam? |
| Gwaith Map (byd-eang)<br>Gwnewch fap sbeis o'r byd. Lleolwch wahanol sbeisys o gwmpas y byd a lle maen nhw'n cael eu tyfu. Dewiswch ddau sbeis a gweld a allwch chi greu'r amodau i'w tyfu yn eich Gardd Llawn Bwyd (e.e. gwair lemwn, tyrmeric, basil). | | Yr Ail Ryfel Byd/Astudiaeth Leol<br>Prosiect: Crëwch eich Gardd Llawn Bwyd 'Dig for Victory' eich hun a dylunio taflen bropaganda i annog eraill i dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain gartref. |

CARDIFF
CAERDYDD

All Saints Educational Trust